# ATODLEN 2

## NEWIDIADAU RHEOLEIDDIEDIG

### **RHAN 4**

### YSGOLION ARBENNIG

18 Mae paragraffau 19 i 21 yn disgrifio newidiadau rheoleiddiedig mewn perthynas ag ysgolion arbennig cymunedol.

*Cynnydd yn nifer disgyblion*

19 (1) Ac eithrio pan fo ysgol wedi ei sefydlu mewn ysbyty, cynnydd yn nifer y disgyblion y mae'r ysgol yn gwneud darpariaeth ar eu cyfer, a fyddai o'i gymryd ynghyd â phob cynnydd blaenorol ar ôl y dyddiad priodol, yn cynyddu nifer y disgyblion gan o leiaf 10% neu gan y nifer perthnasol o'i gymharu â nifer y disgyblion ar y dyddiad priodol.

(2) Yn y paragraff hwn—

y "dyddiad priodol" ("*appropriate date*") yw'r diweddaraf o'r canlynol—

(a) 19 Ionawr 2012;

(b) y dyddiad pan dderbyniodd yr ysgol ddisgyblion gyntaf;

(c) dyddiad (neu ddyddiad diweddaraf) gweithredu cynigion i wneud newid i'r ysgol i gynyddu nifer y disgyblion y mae'r ysgol yn darparu ar eu cyfer ac y cyhoeddwyd y cynigion hynny o dan y canlynol—

(i) adran 48, 59, 68 neu 72, neu

(ii) adran 31 o Ddeddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998 neu baragraff 5 o Atodlen 7 i'r Ddeddf honno; ac

"y nifer perthnasol" ("*relevant number*") mewn perthynas â nifer y disgyblion mewn ysgol yw—

(a) pan fo'r ysgol yn darparu llety byrddio yn unig, 5, a

(b) ym mhob achos arall, 20.

*Darpariaeth fyrddio*

20 Newid y ddarpariaeth ar gyfer llety byrddio fel bod y nifer o ddisgyblion y gwneir darpariaeth o'r fath ar eu cyfer yn cael ei gynyddu neu ei leihau gan 5 disgybl neu ragor.

*Darpariaeth anghenion addysgol arbennig*

21 Newid yn y math o anghenion addysgol arbennig y trefnwyd yr ysgol i wneud darpariaeth ar ei gyfer.